# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

Cyfres newydd, rhif 43 — Gwanwyn 2018



Annwyl Gyd-aelodau,

Wrth i mi baratoi'r cyfarchiad hwn mae'n bwrw eira'n drwm. Erbyn i chi ei ddarllen bydd y gwanwyn wedi cyrraedd.

Mae'n wanwyn!

Mae'r calendr yn dweud ei bod yn wanwyn ac mae'r ŵyn bach i'w gweld yn fwy niferus yn y caeau bob dydd! Ond mae'n bwrw eira. Trwch o eira.

Ac er i mi gyhoeddi i'r byd ar fore Dydd Gŵyl Dewi fod y gwanwyn wedi dod mae'r tywydd yn mynnu ateb trwy ddweud na chollodd y gaeaf ei afael eto!

Ond mae'r dydd yn ymestyn. Bob dydd mae'r haul yn gynhesach. Bob dydd mae'r gaeaf yn gollwng ei afael.

Ac er mor oer yw'r hin, ac er i'r hirlwm frwydro i ddal ei afael, dim ond mater o amser yw hi cyn bydd yr haul wedi gorchfygu yn y frwydr flynyddol. Gwyddom y cawn weld y perthi yn eu llawnder, bywyd yn ei anterth a hirddyddiau haf yn llywodraethu o'r diwedd.

A beth am fywyd ein capeli?

Nid anghrediniaeth sy'n peri i ni wangalonni pan fo'r hinsawdd ysbrydol o'n hamgylch mor oer. Ond anghrediniaeth fyddai credu mai gan awelon y gaeaf ysbrydol mae'r gair diwethaf. Anghrediniaeth fyddai cynllunio'n dyfodol gan gredu mai 'realiti' ein profiad presennol yw'r Realiti o olwg yr Arglwydd.

Yn ganolog i'n dealltwriaeth o'r ffydd ceir y sicrwydd hwn. Credwn ym muddugoliaeth Iesu Grist y daeth tro ar fyd. Datganwn nid yn unig fod y tywydd wedi newid ond bod yr hinsawdd ysbrydol ei hun wedi troi.

Mae presenoldeb pobl sy'n caru ac yn gwasanaethu'r Arglwydd Iesu Grist yn arwydd o hynny. Ac os oes gennym lygaid i weld ac i sylwi byddwn yn gweld bod yna arwyddion o fywyd newydd yn y tir hyd yn oed yn awr. Anghrediniaeth fyddai dweud wrth ein gilydd na allwn weld, trwy drugaredd Duw, gynnydd go iawn yn ein bröydd a'n cynulleidfaoedd hyd yn oed heddiw.

Oherwydd mae Arglwydd Bywyd wedi dod. Ac y mae'r gwanwyn di-droi'n-ôl wedi cyrraedd. Yn ystod yr wythnos nesaf byddwn yn dathlu'r Pasg. Byddwn yn cofio am farwolaeth Iesu Grist ar y groes, a bod cariad Duw wedi dod i wella'n harcholl drwy gymryd clwyf ei hun.

Byddwn yn cyhoeddi mai buddugoliaeth oedd yr hyn ddigwyddodd ar y groes. Byddwn yn cyhoeddi bod buddugoliaeth y groes wedi ei chyhoeddi i'r byd mewn bedd gwag.

Bedd gwag!

Bedd gwag oedd wedi'i gyhoeddi o flaen llaw gan Iesu ei hun. Bedd gwag wedi'r fflangellu. Bedd gwag wedi'r cynhebrwng brysiog wrth i'r haul fachlud. Bedd gwag ar doriad dydd. Bedd gwag a'r disgyblion yn methu dirnad na deall beth oedd yn digwydd. Bedd gwag ac Atgyfodiad yr Atgyfodiad Mawr ei Hun.

Ymhen deugain niwrnod wedi hynny, wedi iddo dreulio amser gyda'i ddisgyblion, dyrchafwyd Iesu i'w safle haeddiannol. Wedi i'r Arglwydd ddiosg ei goron, ar sail ei ufudd-dod hyd angau'r groes a'i fuddugoliaeth ar angau a'r bedd, derbyniodd Iesu Grist 'yr enw' mwyaf mawr. Cafodd yr Arglwydd ei gyhoeddi yn Arglwydd. Ar sail ei fuddugoliaeth drosom trechwyd y tywyllwch, caethiwyd caethiwed, goresgynnodd y goleuni, rhyddhawyd grym bywyd Teyrnas Dduw. Cyrhaeddodd y Gwanwyn Mawr ei Hun – ac ni fydd troi yn ôl i oerfel y gaeaf mwy

Mi wn. Mae'r tywydd a'r hinsawdd ysbrydol presennol yng Nghymru, i'n golwg a'n tyb ni, yn peri i ni ofyn lle mae ôl y fuddugoliaeth hon?

Mae'n fis Mawrth. Ac mae'n bwrw eira. Mae'r calendr, y rhagolygon a'r tywydd oll yn gwawdio'r datganiad fod y gwanwyn wedi cyrraedd. Ond mae'r haul wedi troi. Ac mae llawnder y bywyd newydd gerllaw.

Mae'r Pasg a'r bedd gwag yn dystion, er gwaethaf ein hofnau, ein hamheuon, ein hansicrwydd, ein profiad presennol, fod grym newydd, grym gras, grym Cariad anorchfygol Duw dros bopeth yn sicr.

Peidiwn â chredu'r proffwydi anobaith sy'n darogan gwae a thywyllwch. Nid oes gan sylwebyddion anghrediniol mo'r offer na'r weledigaeth i drefnu nac atal cyflawniad addewidion Duw. Agorwn ein llygaid i chwilio am arwyddion a gweddïwn am ddealltwriaeth i adnabod arwyddion gwanwyn Duw yn ein gwlad.

Byddwn yn hyderus. Byddwn yn ffyddiog. Dywedwn wrth ein gilydd ac wrthym ein hunain bod Iesu wedi cario'r dydd. Ni all unrhyw rym ei rwystro. Fel y mae'r gaeaf yn cilio o flaen haul y gwanwyn a grym yr haf, felly mae sicrwydd buddugoliaeth derfynol yr Arglwydd!

Ar sail yr hyn a addawodd yr Arglwydd i'w Eglwys gweddïwn y cawn brofi mwy o'i ras o Sul i Sul, o oedfa i oedfa. Gweddïwn y bydd ei Deyrnas yn dod i drigo yn ein calonnau'n unigol, yn fwy amlwg yn ein plith fel cynulleidfa ac yn gynyddol yn ein byd – fel y mae yn y nef ei hun. A gweddïwn yn hyderus. Mae'r Arglwydd yn awyddus i fendithio'i bobl

I gloi. Mae gennyf wahoddiad hefyd. Os oes unrhyw un sy'n darllen hyn o eiriau heb fod yn aelod mewn capel neu eglwys neu os ydych yn aelodau sydd wedi cefnu, carwn eich gwahodd i ymuno efo ni yn ein haddoliad a'n gwasanaeth o'r Arglwydd Iesu Grist.

*Watcyn James*

(Llun y clawr o wefan Pxhere.com)

**Cymanfa Ganu Unedig**

**Gogledd Ceredigion**

Capel y Morfa, Aberystwyth

13 Mai 2018

Cyfarfod y Plant am 10 o'r gloch

Cymanfa'r Oedolion am 5.30 o'r gloch

Arweinydd: Mr Alwyn Evans

*Rihyrsals ar nos Fercher am 7 o'r gloch*

| | |
|---|---|
| 11 Ebrill | Bethel, Aberystwyth |
| 18 Ebrill | Capel y Garn |
| 25 Ebrill | Seion, Aberystwyth |
| 2 Mai | Bethel, Tal-y-bont |
| 9 Mai | Capel y Morfa, Aberystwyth |

Dewch i gefnogi—croeso cynnes i bawb

Ar raglen *Bwrw Golwg* (Radio Cymru) yn ddiweddar, dywedodd Dafydd Iwan ei bod yn 'bwysig dod â Christnogaeth yn ôl i ganol cymdeithas'.

Ydych chi'n cytuno â Dafydd Iwan? Oes gennych chi syniadau sut y gellid gwneud hyn yn yr ardal yma?

Anfonwch eich awgrymiadau at Dewi neu Marian, golygyddion 'Gair o'r Garn' – byddem yn falch o dderbyn eich sylwadau.

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parchedig Ddr R. Watcyn James,***
***Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth, SY23 3LZ***
***01970 880615***
***ebost: watcynalowri@gmail.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth &c*

| | |
|---|---|
| 1 Ebrill | *Sul y Pasg*<br>Oedfa Undebol y Pasg<br>Capel Noddfa, Bow Street, am 10 o'r gloch |
| 11 Ebrill | Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro<br>Capel Blaenannerch am 1.30 o'r gloch |
| 14 Ebrill | Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion<br>Capel y Morfa, Aberystwyth, am 2.30 o'r gloch<br>Anerchir gan y Barchedig Casi Jones |
| 10 Mai | Prosiect Cofio a Myfyrio<br>Noson yng nghwmni Mererid Hopwood<br>Capel Horeb, Penrhyn-coch, am 7.30 o'r gloch |
| 13 Mai | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>Capel y Morfa, Aberystwyth,<br>Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch;<br>cyfarfod yr oedolion am 5.30 o'r gloch<br>dan arweiniad Mr Alwyn Evans |
| 17 Mai | Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De<br>Capel Bwlchgwynt, Tregaron, am 2 a 5.30 o'r gloch |
| 27 Mai | Oedfa gymun i Eglwysi'r Ofalaeth<br>dan arweiniad y Gweinidog<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 24 Mehefin | Gŵyl yr Ysgolion Sul<br>Canolfan y Morlan am 11.30 o'r gloch<br>yng nghwmni Criw Coleg y Bala |
| Gweler hefyd: | www.capelygarn.org; Twitter: @capelygarn |




Anwen ac Elin yn mwynhau darllen stori i baratoi ar gyfer
yr Wythnos Fawrth a’r Pasg

Mae ysgolion Sul yn cwrdd
yng Nghapel Seion,
yng Nghapel Pen-llwyn, Capel Bangor,
ac Ysgol Sul Unedig Bow Street yng Nghapel y Garn.
Croeso cynnes i blant o bob oed
– holwch y Gweinidog am fanylion

# Tudalen y Plant

## Stori'r Pasg – y ddau deithiwr



Roedd _ _ _ o ddisgyblion Iesu yn cerdded o Jerwsalem i _ _ _ _ _ _, pentref tua _ _ _ _ _ _ milltir i ffwrdd. Roedden nhw'n _ _ _ _ _ _ iawn am eu bod yn gwybod bod eu Meistr wedi marw. Doedden nhw ddim eto wedi clywed y newyddion _ _ – ei fod yn fyw unwaith eto.

Yn sydyn, dyma Iesu'n ymuno â nhw! Dechreuodd gerdded a _ _ _ _ _ _ _ gyda nhw, ond doedden nhw ddim yn ei adnabod. Fe wnaeth y ddau ddisgybl wahodd y dyn dieithr i aros gyda nhw. Aethon nhw ati i baratoi _ _ _ _ ac wrth iddyn nhw ddechrau bwyta, maen nhw'n ei adnabod. Yna, diflannodd _ _ _ _.

Ond roedd y ddau ddisgybl mor _ _ _ _ _ _ nawr. Ac aethon nhw ar frys yn ôl i _ _ _ _ _ _ _ _ _ _ i ddweud wrth y disgyblion eraill fod Iesu'n fyw eto!

Defnyddiwch y geiriau yma i lenwi'r bylchau yn y stori:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Iesu | da | Jerwsalem | Emaus | siarad |
| drist | hapus | bwyd | saith | dau |

Anfonwch y gwaith at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes ysgol Sul, os dymunwch, erbyn **30 Ebrill.** Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Llongyfarchiadau i **Lois Martha Roberts,** Ysgol Sul Unedig Bow Street, enillydd tasg y rhifyn diwethaf.

Ond os mai eginyn bach o ddealltwriaeth, eginyn o ffydd, tamaid o lin yn mygu sydd gennych, carwn eich gwahodd i ymuno efo ni yn grŵp Gwreiddiau. Ein cadernid, ein cryfder, ein nerth yw bod ein gwreiddiau tila ni'n cydblethu gyda phobl eraill sydd hefyd yn cwestiynu, yn ceisio deall, yn ceisio adnabod Duw yn well. Ac os tyf ein gwreiddiau a chydblethu yng nghymdeithas yr eglwys bydd y cyfan ohonom yn gadarnach ac yn fwy nerthol.

Ers yr hydref mae grŵp Gwreiddiau wedi cyfarfod yn gyson yn festri'r Garn. Wrth gwrs, dydy pawb ddim yn medru dod bob wythnos. Ond mae niferoedd da wedi chwilio a chyfrannu, holi cwestiynau (anodd ar brydiau!) a thrafod atebion.

Byddwn yn dechrau tua 10:15 am baned ac yna yn cynnal ein 'cyfarfod' tan 11:30. Os nad ydych wedi bod hyd yn hyn, peidiwch â gadael i hynny eich rhwystro rhag dod rŵan.

Felly, beth am ymuno gyda ni? Byddwn i gyd ar ein hennill o'ch cael yn gwmni i ni.

*Watcyn James*



# joio@morlan

## Diwrnod o hwyl i blant 6-11 oed

yn Festri Eglwys Dewi Sant (St Davd's), Aberystwyth

Dydd Llun, 16 Ebrill (Diwrnod Hyfforddiant mewn Swydd)

9.30–3.30 o'r gloch

Dewch â phecyn bwyd

I sicrhau lle i'ch plentyn/plant, cysylltwch ag Eleri Davies,

ffôn: 01970 612418; e-bost: janeeleri@btinternet.com



Llongyfarchiadau i dîm y Garn – Gruffydd Aled Williams, Llinos Dafis, Cynog Dafis a Wyn Morris – ar ennill Tarian Her Cwis Blynyddol y Morlan, a hynny am yr ail waith yn olynol.

Cafwyd noson hwyliog o holi ac ateb cwestiynau, gyda thimau'n cynrychioli gwahanol gapeli ac eglwysi'r ardal, dan arweiniad medrus Phil Davies, Tal-y-bont.

# Ebrill

*Blaenor y Mis: Dewi G. Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Gruffydd Aled Williams/ Marian B. Hughes*

**1** *Sul y Pasg*
Oedfa Undebol y Pasg yng Nghapel Noddfa am 10 o'r gloch
Pregethir gan y Gweinidog, y Parch Ddr Watcyn James

**8** Oedfa gymun am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

14 Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion
Capel y Morfa am 2.30 o'r gloch
Anerchir gan y Barchedig Casi Jones
Darperir te yn y festri ar ôl y cyfarfod

**15** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch John Owen, Rhuthun

16 joio@morlan yn Festri Capel Dewi Sant, Aberystwyth
Diwrnod o hwyl I blant 6 –11 oed; 9.30 tan 3.30 o'r gloch

18 Pwyllgor yr Ysgol Sul am 8 o'r gloch yn Festri'r Garn

**22** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

**29** Oedfa am 10 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog

***Trefnu Cyfarfodydd yn y Garn***

Os byddwch am drefnu i ddefnyddio'r capel neu'r festri,
cysylltwch ag Ysgrifennydd y Garn, Alan Wynne Jones:
ffôn 01970 828163; ebost: alan.jones212@btinternet.com.
Diolch am eich cydweithrediad.

## Pwyllgor Cofio a Myfyrio y Tair Gofalaeth

Nos Iau, 10 Mai, am 7.30 o'r gloch

Capel Horeb, Penrhyn-coch

Y Prifardd Mererid Hopwood

Dyma fydd digwyddiad olaf Pwyllgor Cofio a Myfyrio y Tair Gofalaeth. Ar ôl bron i bedair blynedd o gofio a gresynu at erchyllterau'r Rhyfel Mawr ganrif yn ôl, ac o ganol byd sy'n dal i fod yn llawn ymrafael a gwrthdaro, ymunwch â ni i gydystyried ffyrdd heddwch ac ewyllys da. Ein braint yw cael croesawu Mererid Hopwood i arwain ein meddyliau.
Mynediad am ddim ond drwy docyn. I gael tocyn, cysylltwch â Llinos Evans, 01970 871 615, neu Llinos Dafis, 01970 828 262.

## Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De

*Capel Bwlchgwynt, Tregaron*

Dydd Iau, 17 Mai 2018

Siaradwyr:
am 2 o'r gloch
Menna Machreth Llwyd, Caernarfon
'Rhyddid i fyw: merched a ddaw wyneb yn wyneb â Iesu'

am 5.30 o'r gloch
Mari Lloyd Willliams, Lerpwl –
'Gofalu am rai mewn henaint a salwch
beth allwn ei wneud fel Eglwysi?'

# Mai

*Blaenor y Mis: Gruffydd Aled Williams*

*I gyfarch wrth y drysau: Eddie Jenkins / Vernon Jones*

2 Cyfarfod Chwiorydd y Garn
Cinio a chymdeithasu

**6** Oedfa am 10 o’r gloch dan arweiniad y Gweinidog

10 Pwyllgor Cofio a Myfyrio
Noson yng nghwmni Mererid Hopwood
Capel Horeb, Penrhyn-coch, am 7.30 o’r gloch

**13** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
Capel y Morfa, Aberystwyth
Cyfarfod y plant am 10 o’r gloch
Cymanfa’r oedolion am 5.30 o’r gloch
dan arweiniad Alwyn Evans, Aberystwyth

17 Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De
Capel Bwlchgwynt, Tregaron, am 2 a 5.30 o’r gloch
Siaradwyr: Menna Machreth Llwyd a Mari Lloyd Williams

**20** *Sul y Pentecost*
Oedfaon am 10 a 5 o’r gloch
dan arweiniad y Parch R. Alun Evans, Caerdydd
Casgliad tuag at Gymorth Cristnogol

**27** Oedfa gymun i Eglwysi’r Ofalaeth
dan arweiniad y Gweinidog
Capel y Garn am 10 o’r gloch
Casgliad tuag at Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a’r Cylch

### *Mam a mi*

Yn fy nechreuad
nid oedd
ond fy mam a mi.

Yn raddol,
fe dyfais
a magu hunaniaeth.

Cyd-safon, fy mam a minnau,
ar wastadedd mamau
– dros dro.

Crebachodd fy mam,
pylodd ei phelydrau,
gwanhaodd ei goleuni,
darfu,
a'm gadael innau
i warchod ei chynhysgaeth,
ac eiddo'i mam a'i chyn-famau,

hyd nes darfydda innau,
a'u trosglwyddo i'm merch,
yr hon a dyfodd
o'i dechreuad

pan nad oedd iddi hi
ond
y fi a hithau.

*Llinos Dafis*

# Mehefin

*Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Elizabeth Lloyd Jones*

**3** Oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

**10** Oedfa'r bore am 10 o'r gloch yng Nghapel Noddfa

**17** Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog am 10 o'r gloch

**24** Oedfaon am 10 a 5 o'r gloch
dan arweiniad y Parch Ddr John Tudno Williams

Gŵyl yr Ysgolion Sul yng Nghanolfan y Morlan
11.30 tan 1.30 o'r gloch
yng nghwmni Criw Coleg y Bala

Coleg Bala
Canolfan Gristnogol i Blant ac Ieuenctid

**Rhestr Flodau'r Garn**
Os hoffech chi gyfrannu blodau ar gyfer rhai o'r Suliau gwag, cysylltwch â Shân Hayward neu Kathleen Lewis, neu rhowch eich enw ar y rhestr yn y cyntedd, os gwelwch yn dda.
Gwerthfawrogir pob cyfraniad.

| **Ebrill** | **Mai** | **Mehefin** |
|---|---|---|
| **1** Noddfa | **6** Nans Morgan | **3** Elina Davies |
| **8** Liz Lloyd Jones | **13** Y Gymanfa | **10** Noddfa |
| **15** Dwysli Peleg-Wms | **20** Gaerwen | **18** |
| **22** Alan Wyn Jones | **27** Eryl | **25** |
| **29** Mair Jenkins | | |

# Wedi'r Pasg, Pentecost



Y Nadolig. Y Pasg.
Dydd Iau Dyrchafael
a Phentecost.

Dyma gerrig milltir calendr yr Eglwys ym mhob cwr o'r byd. Ac y mae pob un ŵyl yn ddathliad o weithgarwch unwaith ac am byth crëwr ac Arglwydd y bydysawd yn ein byd.

Nadolig – Immanuel Duw yng Nghrist, trwy weithgarwch yr Ysbryd Glân gyda ni.

Y Pasg – buddugoliaeth Duw yng Nghrist ar y groes dros bechod, dros angau, dros Satan a'r Ysbryd Glân yn ein goleuo i adnabod arwyddocâd ei goncwest.

Y Dyrchafael – y dydd y cofiwn am ddyrchafiad yr Arglwydd yng nghwmwl presenoldeb yr Ysbryd Glân yn ôl i'w safle haeddiannol – yn destun mawl holl luoedd gogoneddus y nef a'i holl bobl yn y byd, drwy'r byd.

A Phentecost – y dydd y tywalltwyd yr Ysbryd Glân ar y byd trwy ei Eglwys cynnull Ef, yn enw Iesu mawr, er gogoniant Duw Dad a llawenydd ei bobl.

A phob gŵyl yn ddydd o ryfeddod. Pob digwyddiad yn cofio ymrwymiad cariad y Duwdod i'r byd.

A thrwy ei weithgarwch rhyfeddol Ef daeth y corff rhyfeddaf erioed i fod. A'r eglwys ei hun yw'r greadigaeth ryfeddaf erioed. Corff, cynulliad ydyw sy'n bodoli er mwyn y rhai nad ydynt yn perthyn iddi.

Mae'n wantan, yn fethedig, yn ffaeledig. Ac eto, unig reswm ei bod yw bod Duw yn ei ras ac er ei ogoniant wedi dewis gweithredu mewn cariad a hedd tuag at fyd syrthiedig. A hyn oll er gogoniant a mawl i Dduw yn oes oesoedd.

A dyna yw ein cynulleidfaoedd ni. Creadigaeth Duw yng Nghrist. Creadigaeth yr Ysbryd Glân.

Dywedodd yr Apostol Paul wrth un o'r eglwysi cyntaf a ddaeth i fod mai rheswm ei bodolaeth oedd bod Duw wedi dewis, trwy bregethiad y gair am Iesu Grist wedi'i groeshoelio, ei galw ato. Roedd bodolaeth cynulleidfa o gwbl yn arwydd, yn 'amlygiad sicr o'r Ysbryd a'i nerth'.

Trwy'r Ysbryd hwnnw, meddai, y datguddir 'Pethau na welodd llygad, ac na chlywodd clust, ac ni ddaeth i feddwl neb, y cwbl a ddarparodd Duw ar gyfer y rhai sy'n ei garu.'

Wrth i ni edrych tuag at y dyfodol, gwn i sicrwydd nad oes gennym mo'r gallu na'r doniau, na'r doethineb na'r grym i weld y llanw'n troi a chael gweld pobl yn cael eu hychwanegu i'r eglwys. Dim ond yr Ysbryd Glân fedr ddatguddio'r pethau sydd y tu hwnt i ddychymyg, deall a gwybodaeth – harddwch yr hyn sydd gan yr Arglwydd ar ein cyfer.

Hoffwn eich gwahodd i ymuno gyda mi i weddïo yn ddyddiol o hyn i'r Pentecost am i'r Arglwydd ddatguddio'i Hun yn ein plith a 'datguddio'r heirdd drysorau drud' i'n calonnau briw.

'*Arglwydd Iesu Grist, rhyfeddol yw dy holl weithredoedd. Rhyfeddol ydwyt ti. Rhyfeddol yw'r hyn a wnest ti drosom. Rhyfeddol yw'r hyn yr wyt am i ni fod yn y byd. Arglwydd, a wnei di yn gynyddol ymweld â ni i ddangos i ni beth yw hyd a lled ac uchder a dyfnder Cariad Duw trwy dy Ysbryd Glân. Arglwydd, gogonedda dy hun yn ein plith. Er mwyn dy Enw.'*

Edrychwn ymlaen am ei weld yn ateb cri ei bobl!

*Watcyn James*

## *Aberaid*

Bu rhyfela gwaedlyd ac erchyll yn Syria ers saith mlynedd bellach, a bu'n rhaid i filiynau o bobl ffoi am eu bywydau o'u cartrefi, gan gynnwys teuluoedd â phlant ifanc, cleifion, pobl hŷn a phobl anabl. Mae nifer yn byw dan ofn erledigaeth arweinydd Syria, Bashar al Assad, y mae ei fraich hir yn ymestyn dros ffin Syria i'r gwledydd cyfagos lle mae pobl wedi ffoi, fel Libanus, Iorddonen a Thwrci.

Mae mwyafrif llethol fwyaf y ffoaduriaid wedi aros yn y Dwyrain Canol, ond cafodd y rhai mwyaf bregus gyfle i ymgartrefu yng ngwledydd Ewrop, a hefyd yng Nghanada. Mae ardal Aberystwyth yn barod wedi croesawu nifer o deuluoedd, a sefydlwyd elusen Aberaid er mwyn cefnogi ffoaduriaid. Mae Aberaid yn cydweithio â'r Groes Goch, y Cyngor Sir ac asiantaethau eraill er mwyn helpu'r ffoaduriaid i ymgartrefu a dod i nabod pobl leol sy'n gefnogol a chroesawgar.

Drwy'r Cyngor Sir y daeth yr holl ffoaduriaid hyd yma, ond ym mis Ebrill byddwn yn croesawu'r teulu cyntaf a ddaw yma drwy'r cynllun cefnogi cymunedol. Bu pobl leol – Capel y Garn yn eu plith – yn hynod o hael wrth godi arian i Aberaid er mwyn croesawu teulu yma drwy ymdrech gymunedol. Y ni fel cymuned, felly – nid yr awdurdodau swyddogol – fydd yn gyfan gwbl gyfrifol am gefnogi'r teulu a'u rhoi ar ben ffordd i ddod yn aelodau llawn a gweithgar o'n cymuned ni.

Rydym yn disgwyl teulu o bump, sef tad a mam a thri o blant a fu'n ffoaduriaid yn yr Iorddonen ers sawl blwyddyn, a chafwyd llety addas iddyn nhw yng nghanol tref Aberystwyth, diolch i gymorth un o gapeli'r dref.

Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn gorffen paratoi'r llety, a diolch i grŵp Help Llaw y Garn am gynnig i brynu a pharatoi eitemau ar gyfer y cartref.

Rydym hefyd wedi sefydlu tim bach o wirfoddolwyr a fydd yn gweithio'n agos gyda'r teulu i'w helpu i ymgartrefu yn y cylch, gan gynnwys dangos y dref a'r siopau iddyn nhw, eu hebrwng i apwyntiadau meddygol, eu helpu i gofrestru yn y ganolfan waith ac i dderbyn budd-daliadau, ac wrth gwrs i helpu'r plant i setlo yn yr ysgol. Rydym yn rhagweld y bydd angen cefnogaeth eitha dwys ar y teulu dros y misoedd cyntaf, ac fe fyddan nhw hefyd yn dysgu Saesneg, a hefyd ychydig o Gymraeg, gobeithio.

Mae Aberystwyth yn lle diogel a dymunol i'r ffoaduriaid o Syria, ond rhaid i ni gofio fod yr ardal yn ddieithr iddyn nhw, ac nad ydyn nhw'n gyfarwydd â'n holl arferion. At hynny, maen nhw'n bell o'u mamwlad, ac nid ffoi o ddewis wnaethon nhw.



Siôn Meredith gydag aelodau Grŵp Help Llaw Capel y Garn

Mae nifer wedi gweld a dioddef erchyllterau rhyfel, ac maent yn gadael teulu a cheraint gartref yn y Dwyrain Canol. Maent yn dilyn newyddion y rhyfel, ac yn cael eu hatgoffa'n ddyddiol o'r hyn sy'n digwydd yn eu mamwlad.

Gan hynny, y peth mwyaf gwerthfawr y gallwn ni ei gynnig iddyn nhw yw cyfeillgarwch a chariad. Efallai mai cartref dros dro fydd Aberystwyth iddyn nhw, ond dw i'n ffyddiog y byddan nhw'n synhwyro'r croeso yn Aberystwyth. Bu'r ardal hon yn groesawgar i ffoaduriaid o Wlad Belg ganrif yn ôl, ac mae'r un croeso'n fyw ac yn iach heddiw.

Cawn ein cymell fel Cristnogion i garu ein cymydog, gan wybod hefyd fod yr Hen Destament yn dweud wrthym fod Duw yn caru mewnfudwyr. Dyw ein cyfeillion o Syria ddim yn rhannu'r un grefydd â ni, ac mae llawer yn wahanol rhyngom. Ond credaf mai ewyllys Duw yw i ni, yn ôl ei Air, ddangos cariad diamod i'r ffoaduriaid.

Mae clwb cinio yn cyfarfod yn y dref bob amser cinio dydd Llun er mwyn i ffoaduriaid a phobl leol gwrdd â'i gilydd yn anffurfiol. Os oes gyda chi ddiddordeb i ymuno, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Julie Makin (julie@aberaid.cymru).

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn ag Aberaid, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy ebostio sion@aberaid.cymru. Beth am ein dilyn ni hefyd ar Facebook?

Diolch yn fawr i chi yn y Garn am eich holl gefnogaeth.

*Siôn Meredith*

## *Chwiorydd y Garn*

Amrywiol a difyr fu cynnwys cyfarfodydd y Chwiorydd yn ystod tri mis cyntaf y flwyddyn.

Y siaradwr gwadd ym **mis Ionawr** oedd Dr Rhidian Griffiths, a'i destun oedd 'Dyfed Lewis – canwr o oes Fictoria'. O'r diwedd, wele'r ateb i gwestiwn aeth drwy feddyliau llawer ohonom rywbryd neu'i gilydd, dw i'n siŵr – pwy oedd awdur ysbrydoledig anthem y Cymry ar Wasgar, "Unwaith eto yng Nghymru Annwyl"?

Ym **mis Chwefror** aeth yr Athro Gruffydd Aled Williams, drwy gyfrwng lluniau a dynnodd yn ystod ei ymweliad â Cholorado y llynedd, â ni yn ôl i ddechrau'r ganrif ddiwethaf ac ar drywydd y Cymry mentrus a fudodd i chwilio am gyfoeth yn y gweithiau aur -– a'r rheiny yn cynnwys perthnasau agos iddo. Yn ffodus i ni, daeth ei fam yn ôl i Gymru i sefydlu teulu!

Ym **mis Mawrth** Mrs Joy Jones, Llanrhystud, ymunodd â ni i arddangos ei chyfoeth o waith llaw cain, boed yn wau, crosio neu frodio. Prin bod angen dweud bod te a chacennau danteithiol ar ddiwedd pob cyfarfod!



Joy Jones â detholiad o'i chynnyrch gwaith llaw cain

## *Newyddion Seion*

Ar ôl seibiant dros wyliau'r Nadolig a'r flwyddyn newydd, braf oedd ailafael yng ngwaith yr Ysgol Sul ganol Ionawr gyda dau ddosbarth plant ac un dosbarth oedolion. Eirlys Williams sydd yng ngofal y plant bach gyda phedwar aelod newydd eleni, ac Olwen ac Eleri yng ngofal y dosbarth hŷn. John Gwyn Jones sy'n gyfrifol am arwain dosbarth yr oedolion sy'n cynnwys wyth aelod, gan enwebu aelodau yn eu tro i arwain y gwahanol wersi. Ein maes llafur eleni yw cyfrol y Parchedig Elfed ap Nefydd Roberts, *Dehongli Bywyd a Gwaith Pedr,* yn dilyn ei gyfrol *Dehongli Meddwl Paul* y llynedd. Mae'n cynnwys myfyrdodau wythnosol ar ei fywyd a'i waith a darlleniadau perthnasol o'r Ysgrythur. Mae dosbarthiadau Ysgolion Sul a grwpiau eraill yn ddyledus iawn i Elfed am ei gyfrolau niferus yn cyflwyno gwybodaeth ac yn arwain a symbylu trafodaeth mewn gwahanol feysydd o'r Beibl. Rydym fel dosbarth wedi elwa llawer a mwynhau sawl un o'r cyfrolau hyn.

Ar gychwyn cyfrol Pedr ceir cyflwyniad manwl i'w fywyd a chefndir ei alwad, gan gynnwys yn ei chrynswth gerdd enwog Gwenallt, 'Pedr', ac wrth gwrs ddyfyniad byr o gerdd gyfarwydd I. D. Hooson, 'Simon fab Jona'. Rhaid oedd dwyn i gof gyn-aelod o'r dobarth, Mair Evans, a fyddai'n adrodd y gerdd hon yn gyfan mewn cyngherddau ac eisteddfodau gynt. Mae'r darllen a'r trafod bob Sul yn fywiog a chreadigol iawn weithiau!! Dyma flas o'r math o gwestiynau trafod a gyflwynir:

- A yw'r syniad o fod yn bysgotwyr dynion yn ystyrlon i'r eglwys yn ein hoes ni?
- Pa bethau y mae'r Iesu am eu benthyg gennym ni er mwyn cyflawni ei waith heddiw?
- Ai gwir dweud fod perthynas o gyfeillgarwch clòs rhwng Iesu a Pedr? A yw'n briodol disgrifio'r bywyd Cristnogol fel cyfeillgarwch ag Iesu?

Wrth agor y gyfrol dywed Elfed, 'Rhoddir pum enw gwahanol i Pedr: Simeon ei enw Aramaeg gwreiddiol, Simon, Pedr, Simon Pedr a Ceffas, gan ddeffro ein chwilfrydedd ar unwaith ac felly drwy'r gwersi i gyd.

*Ina Williams*

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Cyfarfu'r aelodau yn festri capel Rehoboth, brynhawn Mawrth, 12 Rhagfyr, ac estynnwyd croeso i'n gwesteion, Ina a John Tudno Williams, Capel Seion. Fe'n rhoddwyd yn 'Naws y Nadolig' drwy'r caneuon, y carolau, y darlleniadau a'r cerddi a gyflwynwyd ganddynt. Cydganwyd y garol 'I orwedd mewn preseb' i orffen, a diolchwyd i'r ddau am brynhawn dymunol iawn. Yna mwynhawyd te, mins peis a chacen Nadolig wedi eu paratoi gan Carys Briddon ac Eiriona Metcalfe.

Y gwesteion yn y cyfarfod ar brynhawn Mawrth, 9 Ionawr, oedd Rhiannon Ifans, Penrhyn-coch, a Trefor Puw, Trefenter, dau sy'n amlwg iawn yn cadw'r traddodiad Cymreig o ganu Plygain yn fyw. Eglurodd Rhiannon drefn gwasanaeth Plygain mewn eglwys, a chydganodd y ddau nifer o garolau yn ddigyfeiliant ac yn swynol iawn. Diolchwyd iddynt am brynhawn dymunol iawn, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Ann Humphreys a Carys Briddon.

Rowland Davies, Dolclettwr, oedd y gŵr gwadd yn y cyfarfod brynhawn Mawrth, 13 Chwefror. Cawsom ganddo hanes diddorol ffermdy Dolclettwr gan nodi fod canol y tŷ yn dyddio'n ôl i 1290, a rhan arall ohono i 1680 sy'n ei wneud yn un o'r ffermdai hynaf ym mhlwyf Llangynfelyn. Daeth Capten Griffiths, sef hen dad-cu Rowland, i Ddolclettwr yn 1893, felly mae'r teulu wedi byw yno ers dros ganrif. Yn dilyn y tân a ddinistriodd hanner uchaf yr adeilad yn 1996 bu'n rhaid ei ailadeiladu, a thrwy gyfrwng sleidiau gwelwyd lluniau o'r tŷ cyn ac ar ôl y tân, a hefyd luniau o'r teulu. Mae'r tŷ â gorffennol hanesyddol pwysig gan fod aelodau o sawl teulu bonedd wedi byw yno dros y canrifoedd. Diolchwyd i Rowland am rannu'r holl wybodaeth ddiddorol am Ddolclettwr, ac yna mwynhawyd te a chacennau wedi eu paratoi gan Mona Rowlands a Meinir Fleming.

*Carys Briddon*


## *Cymdeithas Lenyddol y Garn*



Dewi Hughes, a roddodd sgwrs ddifyr ar y testun 'Dipyn o Ryfeddod', yng nghyfarfod mis Ionawr, a'n tywys ar daith drwy nifer o wledydd De America.



Teulu dawnus Elgar a fu'n diddanu'r Gymdeithas mewn noson o unawdau, grwpiau canu, eitemau offerynnol a chyflwyniadau amrywiol yng nghyfarfod mis Chwefror.




## Cyfres Hoff Emynau:
## 4. Diolch â Chân

Casgliad o 14 o emynau traddodiadol a modern, yn cynnwys cryno-ddisg o Gôr CF1, dan arweiniad Eilir Owen Griffiths, yn eu canu.

Ceir llyfryn yn cynnwys y geiriau a'r tonau, ynghyd â nodiadau ar fywyd a gwaith y cyfansoddwyr a'r awduron.
Pris: £12

Ffrindiau Cartref Tregerddan
Barbiciw yn y Cartref
nos Wener, 15 Mehefin
am 6.30 o'r gloch
Croeso cynnes i bawb – dewch i gefnogi

***Swyddogion yr Ofalaeth***
*Cadeirydd*: Robert Williams, Rehoboth
*Is-gadeirydd*: Janet Jones, Nasareth
*Ysgrifennydd*: Gruffydd Aled Williams, Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **10 Mehefin:**

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St
✆01970 828026
dewinerys@gmail.com

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St
✆01970 828662
marian_hughes@btinternet.com